Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 23/10/17 News

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Anest, Wil, Ana, Mei a Molly am fod yn Sêr yr Wythnos. Da iawn chi!

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

24/10/17 Clwb Garddio Bl 5 a 6 (**Grwp 1**) *Gardening Club*
24/10/17 Clwb Chwaraeon Bl 3 a 4 *Sports Club*
25/10/17 Twrnament Pel Droed Dyffryn Clwyd / *Vale of Clwyd Football Tournament.* Ysgol Brynhyfryd am.
26/10/17 Cyfarfod Diolchgarwch / *Harvest Service*
27/10/17 Disgo Calan Gaeaf Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Halloween Disco* Canolfan Cae Cymro. 5.30 - 6.30pm.
27/10/17 Cau dros hanner tymor / *Close for half term*
6/11/17 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
7/11/17 Plant yn ôl / *Children start back in school*
7/11/17 Bl 3 a 4 - Diwrnod Ail Ryfel Byd / *Second World War Day – Yr 3 & 4.*
13/11/17 Bocsys *Operation Christmas Child Boxes*
14/11/17 Noson Rieni CA2 / *KS2 Parents Evening* 3.30pm – 7.30pm
16/11/17 Noson Rieni CS / *FPh Parents Evening* 3.30pm – 7.30pm
17/11/17 Diwrnod Plant mewn Angen (Dillad smotiog neu liwgar) / *Children in Need Day (Spotty or colourful clothes)*
21/11/17 Clwb Codio / *Coding Club*. Bl 5 a 6
21/11/17 Clwb Gemau Bwrdd / *Board Games Club* Bl 3 a 4
25/11/17 Cylch Meithrin yn trefnu Bws i Lerpwl i Siopa / *Bus to Liverpool Shopping trip organized by Cylch Meithrin Clocaenog*
28/11/17 Clwb Codio / *Coding Club*. Bl 3 a 4
28/11/17 Clwb Gemau Bwrdd / *Board Games Club* Bl 5 a 6
29/11/17 Pantomeim Culhwch ac Olwen *Pantomime* Derbyn/*Reception* – Bl 6/*Yr 6*. Theatr Y Pafiliwn, Y Rhyl.
5/12/17 Clwb Codio / *Coding Club*. Bl 5 a 6
5/12/17 Clwb Gemau Bwrdd / *Board Games Club* Bl 3 a 4
7/12/17 – Ffair Nadolig Cyfeillion yr Ysgol / Friends of the School Christmas Fair – Festri Capel Cyffylliog Chapel Vestry
12/12/17 Clwb Codio / *Coding Club*. Bl 3 a 4
12/12/17 Clwb Gemau Bwrdd / *Board Games Club* Bl 5 a 6
19/12/17 Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol / *School's Christmas Service* – Capel Cyffylliog *Chapel* 6.30pm
22/12/17 Cau dros wyliau'r Nadolig / *Close for Christmas holiday*
8/1/18 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
9/1/18 Plant yn ôl / *Children start back in school*
29-31/1/18 Ymweliad Bl 5 a 6 â Chaerdydd / *Yr 5 & 6 Cardiff visit.*

Pêl Droed/ *Football*

Llongyfarchiadau i'r tim pel droed am chwarae yn dda iawn yn Nhwrnament yr Urdd yr wythnos diwethaf. Bydd y tim yn cystadlu yn nhwrnament Dyffryn Clwyd fore Mercher yn Ysgol Brynhyfryd. *Congratulations to the football team for playing so well in the Urdd tournament last week. The same team will play in the Vale of Clwyd football tournament on Wednesday morning at Ysgol Brynhyfryd.*

Tim / *Team*: Cian, Gwion, Tomos, Gruff. Deian, William a Jac.

Pob lwc! Good Luck!

Gwasanaeth Diolchgarwch
Harvest Service

Bydd yr ysgol yn cael Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Clocaenog pnawn Iau**.** Oherwydd fod yr eglwys yn fach ni fydd lle i rieni ymuno a ni. Bydd Eluned Yaxley yn dod i siarad gyda'r plant ynglyn a'i gwaith gyda Hosbis Plant Tŷ Gobaith a bydd casgliad at yr elusen yma. Bydd plant ardal Clocaenog yn aros yng Nghlocaenog yn dilyn y gwasanaeth. Oherwydd hyn fe fydd y bysiau mini yn cychwyn adref tua 15 munud yn gynt gan y bydd pawb yng Nghlocaenog ac felly yn cyrraedd adref 15 munud yn gynt

We will be having a Harvest Service at Clocaenog Church on Thursday. As the church is very small there will be no room for parents to join us. Eluned Yaxley from Hope House Children's Hospice will be coming to talk to the children and there will be a collection towards this charity on the day. The Clocaenog area children will be staying in Clocaenog after the service. Therefore the mini buses will be starting home 15 minutes earlier on this day as all the children will be in Clocaenog, and therefore the children will be home 15 minutes earlier.

Disgo Calan Gaeaf / Halloween Disco

Edrych ymlaen i weld y plant wedi gwisgo fyny i'r Disgo Calan Gaeaf nos Wener. *Looking forward to seeing the children dressed up for the Halloween Disco on Friday evening.*

Canolfan Cae Cymro 5.30 – 6.30pm

Nofio / Swimming

Bydd gwersi nofio CA2 yn dechrau **ar ôl hanner tymor.** Byddant yn mynd ar brynhawn Dydd Mercher. Rydym yn gofyn am gyfraniad o £2 tuag at gost y bws yn wythnosol os gwelwch yn dda. A wnewch chi roi yr arian nofio mewn amlen gyda enw eich plentyn arno. *Swimming lessons for KS2 will start* ***after half term.*** *They will go on a Wednesday afternoon. We ask for a contribution of £2 per week towards the cost of the bus please. Could you put the swimming money in an envelope with your child's name on the envelope.*

Clybiau CA2 ar ôl hanner tymor
KS2 Clubs after half term

Bydd Clwb Codio Cyfrifiadurol a Clwb Gemau Bwrdd yn cael eu cynnal ar ôl hanner tymor i blant CA2. Byddan nhw yn cychwyn ar bnawn Mawrth Tachwedd 21ain. There will be Computer Coding Club and a Board Game Club for KS2 children after half term. They will start on Tuesday November 21st.

Gwefannau Cymdeithasol
Social Media

Hoffai Llywodraethwyr yr ysgol hysbysu rhieni mai safle Twitter @carregemlyn yw gwefan cymdeithasol swyddogol yr ysgol. Nid yw tudalen Facebook 'Ysgol Carreg Emlyn Cyfeillion yr Ysgol Friends of the School' nac ap 'Classlist' yn safleoedd swyddogol yr ysgol ac felly nid yw'r cynnwys ar y safleoedd yma yn angenrheidiol yn cynrychioli barn Ysgol Carreg Emlyn. Os am unrhyw wybodaeth swyddogol am yr ysgol ewch i'r cyfri Twitter, gwefan yr ysgol - www.carregemlyn.cymru neu ffonio'r ysgol yn uniongyrchol.

The Governors of the school would like to inform parents that @carregemlyn Twitter account is the school's official social media site. The Facebook page, 'Ysgol Carreg Emlyn Cyfeilllion yr Ysgol Friends of the School' and 'Classlist' app are not official school sites and therefore the content on these platforms does not necessarily represent the views of Ysgol Carreg Emlyn. For any official information about the school please go to the twitter account, the school website - www.carregemlyn.cymru or telephone the school directly.

Contractwr wedi'i benodi ar gyfer ysgol newydd Carreg Emlyn

Mae cwmni Wynne Construction wedi'i benodi fel y prif gontractwr i ddatblygu cynlluniau i ddarparu'r ysgol a'r cyfleusterau newydd ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn yng Nghlocaenog. Mae'r prosiect wedi'i gydariannu gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, "Mi ydw i'n falch iawn bod gwaith yn mynd rhagddo ar y prosiect yma ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gydweithio gyda Wynne Construction a chymuned yr ysgol. Mae'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi i gael amgylcheddau dysgu o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc Sir Ddinbych. Mae llawer iawn o fuddsoddi wedi bod drwy'r rhaglen gyfalaf a bydd hynny'n caniatáu i'n plant ni gael gwell amgylchedd i ddysgu."

Dywedodd Chris Wynne, Rheolwr Gyfarwyddwr Wynne Construction: "Rydyn ni'n falch iawn o fod yn gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych unwaith eto ar y prosiect yma. Mae ein profiad ni yn y maes yn ein galluogi i gyflawni'r cynllun i safon uchel ac fe fydd heb os yn hwb calonogol i'r economi leol drwy sicrhau swyddi gyda'n cadwyn gyflenwi leol.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth efo'r budd-ddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau'r buddion gorau ar gyfer y gymuned."

Dywedodd Karen Brady, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Carreg Emlyn:

"Mae'r plant, y staff a'r llywodraethwyr yn croesawu'r cyhoeddiad bod Wynne Construction wedi'i benodi i adeiladu'r ysgol newydd i Ysgol Carreg Emlyn.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio'n agos gyda Wynne Construction er lles plant lleol yn y dyfodol ac er mwyn dod â chymunedau gwledig, Cymreig ynghyd."

Bydd Wynne Construction yn datblygu'r dyluniad technegol terfynol ac yn adeiladu'r adeilad newydd sydd wedi'i ddylunio ar ôl ymgynghori gyda chymuned yr ysgol dros sawl mis. Rhagwelir y bydd yr adeilad wedi'i gwblhau erbyn hydref 2018.

Contractor appointed for the new Ysgol Carreg Emlyn

Wynne Construction has been appointed as the main contractor to take forward plans to deliver the new school and facilities for Ysgol Carreg Emlyn in Clocaenog. The project is jointly funded by Denbighshire County Council and the Welsh Government, through its 21st Century Schools and Education Capital Programme.

Cllr Huw Hilditch-Roberts, Lead Member for Education, Children and Young People said "I am delighted that work is progressing on this project and we look forward to working collaboratively with Wynne Construction and the school community. Both Denbighshire and the Welsh Government are continuing to invest in delivering first-class learning environments for the children and young people of Denbighshire. The capital programme has seen huge investment which will enable a better education environment for our children."

Chris Wynne, Managing Director, Wynne Construction said: "We're delighted to be, once again, working with Denbighshire County Council on this project. Our proven experience in this field equips us to deliver the scheme to a high standard and will undoubtedly provide a welcome boost to the local economy through securing existing jobs with our local-based supply chain.

We look forward to working in partnership with the key stakeholders to maximise benefits for the community."

Karen Brady, Chair of Governors at Ysgol Carreg Emlyn said:

"The children, staff and governors welcome the announcement that Wynne Construction have been appointed to deliver the new school building for Ysgol Carreg Emlyn.

We look forward to working closely with Wynne Construction toward the future benefit of local children and the bringing together of rural Welsh communities."

Wynne Construction will develop the final technical design and construct the new building which has been designed following consultation with the school community over several months. It is anticipated that the building will be completed by autumn 2018.

Rali Cymru GB Wales GB Rally

Bydd y cymal ymarfer 'Shakedown' yn mynd drwy'r fforest fore Iau a golyga hyn y bydd rhai ffyrdd, yn cynnwys y ffordd o Fontuchel i Glocaenog, wedi cau tan tua 1pm. **Os oes rhywyn yn fodlon helpu gyda'r maes parcio a wnewch gysylltu gyda Dylan Jones – 07836530740 neu'r ysgol. Os y bydd rhieni yn helpu fe gawn gyfran o'r arian i'r ysgol.** *The Shakedown stage of the rally will be going through the forest on Thursday morning and this will mean that some roads will be closed until 1pm, including the road from Bontuchel to Clocaenog,* ***If anyone can help with the car parking please contact Dylan Jones on 07836530740 or the school***. If parents help with the car parking it will mean that we will get a share of the money raised towards the school.

the freepress

Llun Dosbarth Derbyn Reception Class Photo

Yn anffodus nid oedd llun y plant Derbyn yn y papur yr wythnos diwethaf gan fod y llun wedi cael ei ddileu mewn camgymeriad. Byddant yn dod i dynnu llun arall a gobeithio y bydd yn y papur yr wythnos yma. *Unfortunately the photo of the Reception children was not in the newspaper last week as it had accidentally been deleted. They are coming to take another photo and it should be in the Free Press this week.*

Hwyl ym Mhentrellyncymer

Diolch yn fawr i'r staff am roi eu hamser i fynd a'r plant i Bentrellyncymer a diolch yn fawr i'r plant am ymddwyn mor dda a gwneud gwaith yr athrawon mor hawdd. Cawsom amser bendigedig!

Fun at Pentrellyncymer

Thanks to the staff for giving up their time to take the children to Pentrellyncymer and thanks to the children for behaving so well and making the teachers' work much easier. We had a wonderful time!